| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **29 Hydref 2013** |
| **Aelod/ Swyddog Arweiniol:** | **Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg** |
| **Teitl:** | **Ymgynghoriad Ffurfiol - Ysgol Llanbedr** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Bwriad yr adroddiad yw diweddaru Aelodau'r Cabinet ynglŷn â'r trafodaethau gydag Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru yn ymwneud â'r arolwg o ysgolion cynradd Rhuthun a'r cynnig i gau Ysgol Llanbedr.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae angen i'r Cabinet benderfynu a ddylid bwrw ymlaen i gael ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig mewn perthynas ag Ysgol Llanbedr ac i nodi argymhellion pellach i wella darpariaeth addysg yn yr ardal.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Yr argymhelliad yw cymeradwyo ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer cynigion i gau Ysgol Llanbedr ar 31 Awst, 2014 gyda'r disgyblion presennol yn trosglwyddo i Ysgol Borthyn, yn amodol ar ddewis y rhieni, ac yn amodol ar gasgliadau'r trafodaethau gyda'r Eglwys yng Nghymru.

## 4. Manylion yr Adroddiad – Cau Ysgol Llanbedr a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Borthyn, Rhuthun, yn amodol ar ddewis y rhieni

<u>Yr achos dros newid</u>

4.1 Mae Ysgol Llanbedr yn Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg a Reolir yn Wirfoddol gan yr Eglwys yng Nghymru, sy'n gwasanaethu'r ystod oed 4-11. Lleolir yr ysgol ar gyrion pentref Llanbedr Dyffryn Clwyd. Ym mis Ionawr 2013 (dyddiad y cyfrifiad disgyblion blynyddol) roedd 21 o ddisgyblion Llawn Amser ar gofrestr Ysgol Llanbedr. Mae nifer y disgyblion wedi gostwng dros y 18 mis diwethaf fel yr amlinellir yn y tabl isod;

**Nifer y Disgyblion Llawn Amser 2009-2012**

| 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 |
|---|---|---|---|---|
| 67 | 63 | 59 | 37 | 21 |

***Data mis Ionawr bob blwyddyn**

4.2 Ym mis Ionawr 2013 roedd y grwpiau blynyddoedd fel a ganlyn;

**Grwpiau Blwyddyn 2012-2013**

| Derbyn | Bl. 1 | Bl. 2 | Bl. 3 | Bl. 4 | Bl. 5 | Bl. 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | 4 | 7 | 0 | 3 | 1 | 1 |

***Data mis Ionawr 2013**

4.3 Mae rhagolwg nifer disgyblion y Cyngor, yn seiliedig ar y nifer presennol o ddisgyblion yn awgrymu y bydd cynnydd yn y nifer o ddisgyblion yn yr ysgol, a amlinellir isod;

**Rhagolygon Disgyblion 2014-2018**

| 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|
| 24 | 27 | 28 | 32 | 29 |

***Data Rhagolygon Disgyblion mis Mehefin 2013**

4.4 Roedd y derbyniadau ar gyfer y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn yn ystod blwyddyn academaidd 2013/2014 fel a ganlyn;

| | |
|---|---|
| **Meithrin** | 7 |
| **Derbyn** | 3 |

Yn dilyn Cyfarfod y Cabinet ym mis Mehefin 2013, mae'r Corff Llywodraethu wedi rhoi gwybod i'r Cyngor y gellir disgwyl 12 o geisiadau ar gyfer derbyn i'r dosbarth Meithrin ym mis Medi 2014. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i'r Meithrin a Derbyn a Meithrin yn y drefn honno yw 29 Tachwedd a 21 Chwefror 2014 yn y drefn honno. Wrth i ni gwblhau'r adroddiad, roedd yr awdurdod wedi prosesu 4 o geisiadau ar gyfer y dosbarth Derbyn a 5 cais ar gyfer darpariaeth Feithrin.

4.5 Nodwyd yn flaenorol mai'r cyfanswm lleoedd yn adeilad parhaol yr ysgol yw 77. Roedd hyn yn cynnwys 54 o leoedd Parhaol a 23 o leoedd mewn dosbarth symudol. Mae'r Corff Llywodraethu wedi cyflwyno sylwadau y dylid symud y ddarpariaeth symudol o'r ysgol ac felly, i bwrpas yr adroddiad hwn, cyfrifwyd mai'r nifer llawn o leoedd yw 54 o leoedd i ddisgyblion Llawn Amser.

4.6 Yn ôl y cofnod disgyblion ym mis Medi 2013, mae gan yr ysgol 21 o Ddisgyblion Llawn Amser a 7 o Ddisgyblion Rhan Amser. Gan ddefnyddio'r cyfanswm diwygiedig o leoedd a awgrymir o 54 mae gan yr ysgol 33 o leoedd gwag a'r % o leoedd gwag yw 61.1%. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynghori Awdurdodau i gymryd 'camau pwrpasol' mewn achosion lle mae dros 25% o leoedd gwag.

4.7 Er bod rhagolygon disgyblion yn dangos cynnydd yn nifer y disgyblion dros y blynyddoedd i ddod a allai ostwng lleoedd gwag yn yr ysgol, bydd Ysgol Llanbedr yn parhau'n 'ysgol fach' a bydd materion yn parhau o ran cynaladwyedd a hyfywedd Ysgol Llanbedr a safonau addysg a chyrhaeddiad yn y dyfodol. O fewn y gyfres o gynigion a ystyriwyd gan y Cabinet ym mis Mehefin 2013, bydd cynigion newid yn cael eu cyflwyno ar bob ysgol gyda niferoedd is na 80.

4.8 Cytunodd y Cabinet yn eu cyfarfod ym mis Mehefin i fwrw ymlaen i gynnal ymgynghoriad ffurfiol ar gau Ysgol Llanbedr.

4.9 Ar 1 Hydref daeth Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ddeddfwriaeth gynradd ar gyfer datblygu cynigion trefniadau ysgolion. Mae'r Ddeddf yn nodi fod rhaid ymgynghori gyda'r corff crefyddol cyn y gwneir unrhyw benderfyniad i symud ymlaen i ymgynghori'n ffurfiol. Er mwyn sicrhau cydymffurfiad gyda'r ddeddfwriaeth, cytunwyd i ohirio gweithredu'r penderfyniad i ymgynghori ar y cynnig hwn, yn amodol ar gynnal ymgynghoriad ffurfiol gydag Esgobaeth Llanelwy yr Eglwys yng Nghymru. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 9 Medi a 7 Hydref. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, cynhaliwyd cyfarfod gyda Swyddogion Addysg o Awdurdod yr Esgobaeth ar 25 Medi i drafod y cynnig hwn a'r materion ehangach sy'n effeithio ar Ysgol Llanfair ac Ysgol Borthyn.

4.10 O safbwynt y cynnig arwyddocaol hwn, y canlyniad oedd na ddaethpwyd i gytundeb rhwng Sir Ddinbych ac Esgobaeth Llanelwy ynglŷn â chau Llanbedr. Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd y Cyfarwyddwr, ar ran yr Esgobaeth, yn gwneud ymateb ffurfiol, ar ôl ymgynghori eto â'r Bwrdd Addysg.

4.11 Rhagwelir y bydd yr Ymgynghoriad ar y cynnig (gweler Atodiad A) i gau Ysgol Llanbedr yn digwydd rhwng 11 Tachwedd a 23 Rhagfyr. Bydd hyn yn caniatáu'r trafodaethau i ddechrau yn ystod tymor yr ysgol gyda'r ymgynghoriad yn para am o leiaf chwe wythnos. Bydd y broses ymgynghori yn rhoi'r cyfle i rieni, disgyblion, llywodraethwyr a staff wneud sylwadau ar y cynigion cyn i'r Cabinet benderfynu a ddylid symud ymlaen i gyhoeddi'r cynigion ar gyfer newid yn ffurfiol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r cynnig yn cefnogi'r flaenoriaeth o "Wella perfformiad mewn addysg ac ansawdd ein hadeiladau ysgol" ac wedi'i amlygu fel ffrwd waith fel a ganlyn:

"Byddwn yn parhau i adolygu darpariaeth ysgol ar draws y Sir i sicrhau ein bod yn darparu'r nifer cywir o leoedd ysgol, a'u bod o'r math cywir, yn y lleoliad cywir."

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Y brif gost mewn perthynas â cham hwn y cynigion fydd argraffu a phostio a chostau'n gysylltiedig â threfnu cyfarfodydd cyhoeddus. Os byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynigion a'u gweithredu, rhagwelir y bydd angen cefnogaeth AD i staff a effeithir gan y newidiadau bwriedig.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r asesiad a gynhaliwyd ynglŷn ag effaith y penderfyniad ar gydraddoldeb? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.

Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar y penderfyniad ac mae ynghlwm yn Atodiad B.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd â'r Pwyllgor Archwilio a phwyllgorau eraill?**

Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn gyda'r holl fudd-ddeiliaid ac mae crynodeb o'r cyfnod Ymgynghori Ffurfiol ym mhrif gorff yr adroddiad.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Ni chredir fod cost yr ymgynghoriad ffurfiol yn sylweddol a dylai fod yn bosibl talu amdano o fewn yr adnoddau presennol.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae posibilrwydd cryf y gallai'r cynnig arwain at gyhoeddusrwydd negyddol i'r Cyngor a sylwadau negyddol gan y cyhoedd.

Er mwyn lleihau'r risg hon, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau cyfathrebu clir gyda'r holl fudd-ddeiliaid.

**11 Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
Fframwaith Bolisi Moderneiddio Addysg (cymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Ionawr 2009)